PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer


85c | Rhif 478 | Ebrill 2025



Megan yn cipio gwobr t.20



Colofn Enwau Lleoedd t.6



Arielau Capel Dewi t.20

## Eisteddfod Penrhyn-coch 2025



Lowri Emlyn, Penrhyn-coch, gyda'r beirniad Garry Owen




Enillydd Tlws yr Ifanc - Robin Humphreys, Pistyll, Pwllheli gyda'i deulu.



Sion Gibson, Elinor Jenkins, Leusa Jenkins a Now Schiavone - enillwyr unawd offeryn cerdd (cynradd)



Ania, Osian a Leisia - unawd blwyddyn 1 a 2 nos Wener



Mirain Evans, Llandre enillydd unawd cerdd dant uwchradd

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG
Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

# dyddiadur

**RHIFYN MAI - DYDDIAD CAU** MAI 2;
**DYDDIAD CYHOEDDI** MAI 14

**EBRILL**

16 Nos Fercher Dafydd Llewelyn O Gwmderi i Holby Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb am 7.30

22 Nos Fawrth Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn Neuadd Rhydypennau am 7.30 – gweler hysbyseb t.

25-27 Dyddiau Gwener i Sadwrn Gŵyl Crime Cymru Festival yn Aberystwyth. Manylion a rhaglen ar y wefan https://gwylcrimecymrufestival.co.uk/

26 Dydd Sadwrn Cyngerdd Clwb Telyn Aberteifi yng Nghanolfan y Morlan. 8 o aelodau gan roi gwahoddiad i unawdydd. £10 gyda phaned a chacen, plant am ddim. Yr elw i'r Ŵyl.

**MAI**

3 Dydd Sadwrn Ffair Fai Cara – stondinau, triniaethau ac adloniant gan Meinir Gwilym a Dawnswyr Seithenyn yn y Bandstand, Aberystwyth rhwng 11 a 4.

8 Nos Iau Cyfarfod Blynyddol Neuadd Rhydypennau am 7.30

8 Nos Iau Rhian Dafydd a Deian Creunant yn sgwrsio am waith HaHav Ceredigion yn nhafarn y Druid, Goginan

11-17 Wythnos Cymorth Cristnogol

16-18 Dyddiau Gwener i Sul Gŵyl Eric ac Arthur Thomas, Penrhyn-coch

18 Pnawn Sul. Proms yn y cae. Prynhawn o adloniant yn cael ei gynnal ar gae Cymdeithas Goginan.

YTincer@googlemail.com

## Cyfeillion Y Tincer

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mawrth 2025

**£25** (Rhif 132) Shirley Rowlands, 42 Tregerddan, Bow Street
**£15** (Rhif 26) Shaun Jones d/o Bronallt, Llandre
**£10** (Rhif 281) Morris Morgan, Bwthyn, Penrhyn-coch

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plîs rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost bethanbebb162@gmail.com

## Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion 2025

**RIHYRSALS**
Nos Fercher 7.00

*Ebrill*
16 Capel y Morfa
30 Bethel, Aberystwyth

*Mai*
7 Seion
14 Capel y Morfa

**CYMANFA**
Dydd Sul Mai 18. 10.00 a 5.30
**Arweinydd**: Alwyn Evans

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Cyngor Cymuned Trefeurig £200**
**Cyngor Cymdeithas Tirymynach £350**

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Pob hwyl**
Llongyfarchiadau i blant yr ardal sydd yn mynychu Ysgol Pen-llwyn ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd a pob hwyl i'r parti dawns ym Margam ym mis Mai.

# 30 mlynedd yn ôl



Ffynnon Genau'r-glyn a gysegrwyd ar Fawrth 29. Arferai gael ei defnyddio gan bobl a ddioddefai o wynegon ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe'i cuddiwyd o dan rwbel yn y maes parcio ger yr eglwys.

Ddwy flynedd yn ôl enillodd cais Sefydliad y Merched Genau'r-glyn i Dŵr Cymru dan eu cyllun 'Dŵr yn y Gymuned'.Adnewyddwyd y ffynnon gyda chymorth Pwyllgor Tywysog Cymru, Cyngor Cymuned Genau'r-glyn, yr eglwys, yr adeiladydd Aled Rowlands a Paul James o James Memorials. (O'r *Tincer* Ebrill 1995)

# Protest!




**Protest yn Ynys-las ar 29 Mawrth Llun: Helen Heron**



## Colofn **Elin Jones AS**

Mae mis Mawrth wedi bod yn gyfnod prysur. Fues i'n cadeirio cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Prifysgol Y Drindod Dewi Sant i gael clywed ymateb trigolion ynglŷn â dyfodol campws y Brifysgol yn Llambed. Er fod yr Is Ganghellor, Elwen Evans, wedi dweud nifer o weithiau nad yw'r Brifysgol yn bwriadu cau'r campws, rydym yn aros i glywed am gynlluniau gwerth chweil fydd yn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r dref a'r campws. Mae'r Brifysgol yn ymgynghori ar hyn o bryd, ac edrychwn ymlaen i glywed mwy yn y dyfodol agos wrth i sgyrsiau barhau.

Roedd yn dda cael y cyfle i gynnal cyfarfod ar y cyd gyda Ben Lake AS, Ann Davies AS, Cefin Campbell AS ac Adam Price AS yn Llanllwni yn ddiweddar i drafod pryderon grwpiau sy'n ymgyrchu yn erbyn y seilwaith peilonau arfaethedig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd yn bwysig i ni glywed safbwyntiau a theimladau trigolion, ac i fynegi ein cefnogaeth dros tanddaearu gwifrau trydan.

Roedd yn dda clywed fod Trafnidiaeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar wasanaeth gwibfws newydd fydd yn cysylltu gogledd a de Cymru. Gwasanaeth stop cyflym fyddai'r gwasanaeth yn galw yn nhrefi a gorsafoedd rheilffordd allweddol rhwng Bangor a Chaerfyrddin, gan gynnwys Aberystwyth, Aberaeron, a Llandysul. Gobeithio y bydd pawb yn achub ar y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad a dwi'n falch bod cynllun i gynyddu ein gwasanaethau bysiau yn y sir, i ddatblygu coridor trafnidiaeth gorllewin Cymru ymhellach fel rhan o baratoi ar gyfer dychwelyd y rhwydwaith rheilffordd ar hyd yr un coridor rhyw ddiwrnod. Mae angen amlwg hefyd i rai o'r gwasanaethau newydd fynd cyn belled â Chaerdydd, ac mae sicrhau bod y T1C o Aberystwyth i Gaerdydd yn parhau, a'r amserlen yn cael ei ymestyn, hefyd yn bwysig iawn i drigolion Ceredigion.

Cofiwch gysylltu os ydych eisiau unrhyw gefnogaeth neu rannu barn gyda fi. Mae croeso i chi anfon ebost ataf (elin.jones@senedd.cymru) neu gysylltu â'm swyddfa i drafod ymhellach (01970 624516).






# Penrhyn-coch



## Pum cenhedlaeth

Dorothy Davies, Bryntirion, yn dathlu pum cenhedlaeth gyda'i merh Awena, wyres Nicola, gor-wyr Nathan a Nora fach, seren y dydd.

## CANLYNIADAU PÊL-DROED PENRHYN-COCH

**Tim 1af**

*Mawrth*

22 Penrhyn-coch 0 Alexandra yr Wyddgrug 0
25 Penrhyn-coch 6 Mynydd Fflint 1
29 Mynydd Fflint 5 Penrhyn-coch 1

*Ebrill*

1 Airbus Uk Brychtyn 2 Penrhyn-coch 0
5 Prestatyn 1 Penrhyn-coch 2

**Eilyddion**

*Mawrth*

14 Eilyddion Penrhyn-coch 1 Turfs Tregaron 2

*Ebrill*

5 Eilyddion Penrhyn-coch 0 Trefyclo (Knighton Town) 5



**Suliau Horeb**

*Ebrill*

**20** 10.00 Sul y Pasg Geraint Evans – Bethel, Tal-y-bont Sul yr ofalaeth
**27** 10.30 Hywel Davies

*Mai*

**4** 2.30 Peter Thomas Oedfa gymun
**11** 10.30 Peter Thomas
**18** 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu – Capel y Morfa
**25** 2.30 Judith Morris

**Cymdeithas y Penrhyn**

Cynhaliwyd Cinio Blynyddol y Gymdeithas yng Ngwesty'r Pedwar Tymor yn Aberystwyth ar nos Sadwrn 22 Mawrth. Diolchodd Angharad Fychan i Emyr a'r staff am ddarparu bwyd blasus cyn cyflwyno ein siaradwr gwadd, Jim O'Rourke, rheolwr prosiect adnewyddu'r Hen Goleg.

Mae Jim yn gyn-fyfyriwr daearyddiaeth o Brifysgol Aberystwyth. Sefydlodd wasanaeth ymgynghori a rheoli prosiectau ac mae wedi gweithio ar nifer o ddatblygiadau gan gynnwys ailddatblygu'r Urdd a Nant Gwrtheyrn.

Llwyddodd Jim i gael cyllid ar gyfer adnewyddu'r Hen Goleg o ffynonellau lluosog gan gynnwys y Loteri Genedlaethol. Bydd angen i'r datblygiad "sefyll ar ei draed eu hun" yn y pendraw ac felly cynhwysir gwesty gydag ystafelloedd safon pedair seren. Er mwyn cynyddu'r incwm ychwanegir y nifer o ystafelloedd drwy ymgorffori adeilad y Cambria drws nesaf.

Bydd y datblygiad yn cynnwys cyfleusterau i gynadleddau, priodasau a gwledda yn ogystal â galerïau o'r safon angenrheidiol i ddangos eitemau o bwysigrwydd cenedlaethol. Gobeithir denu trigolion y dref ac felly bydd hefyd gaffis, barrau a siopau. Nid yw'r gwaith wedi bod yn hollol ddidrafferth. Darganfuwyd llu o broblemau gyda strwythur yr adeilad gan gynnwys simneiau heb gynhaliaeth go iawn a cherrig sydd yn pydru oherwydd bod paent anaddas yn eu hatal rhag "anadlu". Effeithiwyd ar y gwaith hefyd gan Brecsit, Covid a'r rhyfel yn Wcráin. Esboniodd Jim pa mor gymhleth oedd cydweithio ag awdurdodau amrywiol gan gynnwys Cadw, Cyngor Ceredigion a goruchwylwyr rheoliadau adeiladu.

Diolchodd Angharad i Jim am agor ein llygad i ddatblygiadau y tu cefn i'r sgaffaldwaith ac egluro gweledigaeth y prosiect. Mynegodd y gobaith y gallai'r Gymdeithas gynnal Cinio Gŵyl Ddewi 2027 yn yr Hen Goleg.





**Y Cynghorydd Caryl Roberts yn bwrw golwg dros y gwaith llwybr beics newydd ger Gogerddan efo un o fechgyn Trefeurig - Rhys Jeremiah – gymerodd drosodd gwmni AFAN Construction yn ddiweddar.**

Llun: Harri Lloyd



**Gwnaed tipyn o ddifrod i'r coed ym Mhwll Crwn gan storm Darragh yn ddi weddar.**

**David Meirion Edward Jones**

Un o bobl Corris oedd Dai, a dylanwad yr ardal arbennig yna o Feirionnydd yn drwm ar ei gerddediad. Wedi derbyn ei addysg gynnar yn lleol, ymunodd â'r Llu Awyr a bu'r profiad yn ddarpariaeth ar gyfer ei hyfforddiant pellach fel plismon. Dechreuodd ar ei yrfa yn Aberystwyth gan symud ymhen amser i ardal Aberteifi a Chastellnewydd Emlyn.

Un o'r hen deip oedd Dai a gallwn ddychmygu ei berthynas gyda chymeriadau gwaelod sir Aberteifi. Roedd ganddo amser i sgwrsio a dod i adnabod pobl a byddai wrth ei fodd yn sôn am drigolion yr ardaloedd hynny a fu'n gartref ac yn faes gwaith iddo. Dychwelodd i ardal Aberystwyth gan weithio i Swyddfa'r Crwner hyd ei ymddeoliad.

Ond nid dyn i segura oedd Dai ac felly dechreuodd Ysgol Yrru a thrwy'r alwedigaeth honno daeth i adnabod cenhedlaeth o bobl ifanc fydd yn ddyledus iddo trwy gydol eu bywydau. Yn hamddenol braf, byddai'n cyfarch hwn a'r llall wrth yrru a hyfforddi, a phawb yn ei adnabod gan fod yr arwydd ar ben y car yn fawr ac yn amlwg! Nid taith ar ei ben ei hun oedd taith Dai ond yn hytrach yng nghwmni ei annwyl Ann, fu'n gefn iddo ar hyd y blynyddoedd gyda'r ddau yn deall ei gilydd i'r dim. Daeth y ddau yn dad a mam i Sian ac Elin a hwythau ymhen amser yn magu teuluoedd eu hunain a Dai ac Ann yn dod yn dad-cu a mam-gu, yn hen dad-cu a mam-gu, annwyl a gofalus. Byddai'r sgwrs ar yr aelwyd bob amser yn cynnwys hanesion y genhedlaeth newydd, a chariad a gofal Dino, Isobel, Adam, Rebecca a'u teuluoedd yn destun balchder.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n rhaid i Ann fynd i gartref Cwmcynfelin a bu ymweliadau cyson a chydwybodol Dai yn gysur ac yn gynhaliaeth iddi. Fe barhaodd y croeso ar aelwyd 12 Tan-y-berth a Dai wrth ei fodd yn adrodd hanesion am y gorffennol a'r presennol. Yn dilyn damwain cyn y Nadolig bu taith y misoedd diwethaf yn anodd iddo ac ar 25 Ionawr bu farw'n dawel ac yntau'n 91 mlwydd oed. Tristwch pellach oedd marwolaeth Ann y diwrnod canlynol ond er y golled i'r teulu y cysur mwyaf yw bod y ddau bellach gyda'i gilydd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Sian ac Elin a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Bu angladd Dai ac Ann yn Amlosgfa Aberystwyth ar 17 Mawrth dan arweiniad y Parch Eifion Roberts.

Atgynhyrchwyd o *Perthyn* – misolyn Capel y Morfa, Aberystwyth, gyda chaniatâd.

**Cymorth Cristnogol**

Bydd casgliad 2025 Penrhyn-coch at Gymorth Cristnogol yn un drwy'r we unwaith eto. Os ydych am gyfrannu i Gymorth Cristnogol drwy gasgliad Penrhyn-coch a ddim am wneud ar y we gallwch anfon siec yn daladwy i 'Cymorth Cristnogol' at Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, SY23 3HE neu Eglwys St Ioan', d/o Y Ficerdy, Garth, Penrhyn-coch SY23 3EP. Gallwch holi am ffurflen rhodd gymorth os yw'n berthnasol. Gallwch hefyd roi trwy flychau casglu yn y Swyddfa Bost ac yn garej Tŷ Mawr.



**Merched y Wawr Penrhyn-coch yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Nhre'r-ddôl.**

## Cylch Meithrin Trefeurig






Plant y cylch yn mwynhau parti piws i ddathlu Dewin a Doti. Cafwyd gweithgareddau piws, ee toes piws, "shaving foam" piws, addurno bisgedi lliw piws, gwneud mygydau Dewin a Doti, gwneud balalŵn Dewin a mwynhau bwydydd piws.

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
*9.00-4.30*
*Sul: Ar gau*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Wrth deithio ar hyd y ffordd gefn o Benrhyn-coch i Bonterwyd, heibio'r llynnoedd, pe bwriech olwg tua'r de-ddwyrain wedi i chi basio meini'r Fuwch a'r Llo, fel welech dalcen adfeilion lluest *Geufaes* (SN726831) yn swatio yng nghesail y graig y tu draw i'r cwm, a *Nant Geufaes* yn llifo islaw.




**Map Arolwg Ordnans 6" argraffiad cyntaf Ceredigion VII NE (1887)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Daw'r enghraifft gynharaf o'r enw y gwn i amdani o ewyllys Edward Morgan, Llanbadarn Fawr, yn 1621, lle sonnir am 'one summer house called *Tythyn y geyvaes*',[1] ond *Geufaes* ar ei ben ei hun sydd gan Lewis Morris ar ei fap o gwmwd Perfedd yn 1744. Pan fapiwyd y lluest gan stad Gogerddan yn 1790, defnyddiwyd y ffurf *Gifaes*,[2] a dyna a welir ar Fap Degwm Llanbadarn Fawr yn 1845 yn ogystal, er mai *Geifes* a gofnodwyd ar y Rhestr gyfatebol.

Er gwaetha'r amrywiaeth yn ffurfiau'r enw dros amser, y gair cyfansawdd *ceufaes* sydd yma, yn gyfuniad o *cau* a *maes*, ond fe sylwch fod *cau-* wedi troi'n *ceu-* dan ddylanwad sain yr ail elfen drwy broses a elwir yn affeithiad. 'Darn o dir, cae' yw *maes*, wrth gwrs, ond mae mwy nag un ystyr bosibl i'r ansoddair *cau*. Gall olygu 'wedi ei amgáu', ac os felly, ystyr *Geufaes* fyddai 'darn o dir wedi ei amgáu', ond go brin bod hynny'n argyhoeddi am mai darn o dir wedi ei amgáu fyddai pob lluest mewn gwirionedd. Ystyr arall bosibl *cau* yw 'gwag neu bantiog', ac mae'n hollol addas yn achos *Geufaes* am fod yr annedd yn sefyll mewn pant cysgodol yn y llethr.



**Adfeilion Geufaes**

Digwydd *cau* yn yr ystyr hon mewn nifer o eiriau cyfansawdd cyfarwydd megis *ceubren*, *ceudwll*, *ceugwm*, a *ceunant*, geiriau sy'n disgrifio gwrthrychau ac ynddynt bant neu wagle mewnol. Fe'i gwelir hefyd mewn amryw o enwau lleoedd yn yr ardal hon er enghraifft afon *Ceulan* (*cau+glan*) yn Nhal-y-bont, *Blaengeuffordd* (*cau+ffordd*) ger Capel Bangor, *Ffynnon Ceule* (*cau+lle*) ger Penrhiw-las, Cwmbrwyno, a *Geufron* (*cau+bron*) uwchlaw Aber-ffrwd.

Fe'i ceir hefyd yn elfen olaf yn yr enwau *Fuches-gau*, Ponterwyd, a *Dôl-gau* a *Chwm-cau*, ger y Dolau (er bod tuedd i sillafu'r enw olaf hwn fel *Cwm-cae* ar sail camdybiaeth mai *cae* 'field; enclosed' sydd yno).

Yng nghanolbarth a de Ceredigion (ac yn Ne Cymru'n fwy cyffredinol) yngenir yr elfen *cau* fel *coi*. Dyna a welir yn yr enwau *Goiallt*, Llangeitho, a *Ffos-goi* ger Lledrod. A ffurf luosog yr ansoddair, *coion*, a geir yn *Dolaucoion*, rhwng Pontarfynach a Phont-rhyd-y-groes.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**
a Geiriadur Prifysgol Cymru **https://www.geiriadur.ac.uk/**

1 Ewyllys SD/1621/36 (LlGC).
2 Maps of the Gogerthan Estate in the several counties of Cardigan and Montgomery the property of Mrs. Margt. Pryse Vol.2 http://hdl.handle.net/10107/1445837

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com











## Cylch Cinio

Daeth criw da o aelodau'r Cylch Cinio ynghyd i gyfarfod mis Ebrill yng ngwesty'r 4 Tymor.

Ein gŵr gwadd oedd y Dr Owen Jones, arbenigwr ym maes etomoleg, gair newydd i lawer, sef yr astudiaeth o bryfed a gwyfynod. Nid pawb sy'n gwirioni nac yn gysurus yng nghwmni pryfetach ond daeth yn amlwg fod Dr Jones wrth ei fodd yn eu cwmni ac fe gawsom noson hwyliog iawn yn ei gwmni ef.


Yn frodor o Gellilydan ym Meirionnydd aeth i ysgol Blaenau Ffestiniog ac yna i ddilyn cwrs gradd mewn gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Bangor. Bywydeg oedd ei brif faes er bod ganddo hefyd ddiddordeb mawr mewn ieithoedd.

Symudodd i weithio ar ei ddoethuriaeth yng Nghaergrawnt ac yno fe fu'n gyd-fyfyriwr gyda'n Cadeirydd Yr Athro Geraint Vaughan.

Treuliodd gyfnod wedyn ym Mhrifysgol Southampton ac yna Prifysgol Caerdydd. Daeth yn ffigwr amlwg yn ei faes yn rhyngwladol a bu'n gweithio mewn nifer o wledydd gan gynnwys Ffrainc, Sbaen, Gwlad Groeg, Yr Eidal a De America. Yn ogystal a disgleirio yn y byd academaidd sefydlodd gwmni masnachol ym 1984 er mwyn cynorthwyo cynhyrchwyr amaeth a bwyd i ddiogelu a rheoli cnydau rhag eu difetha gan bla yn sgil ymosodiadau niweidiol gan bryfed a gwyfynod drwy eu rheoli mewn ffordd lan.

Diolchwyd i'r siaradwr a'i longyfarch ar ei gyfraniad nodedig a'i lwyddiant mawr gan Ceris Gruffudd, Penrhyn-coch. Enillwyd y raffl gan Malcom Davies, Waunfawr.

Hyfryd oedd cael cwmni dau aelod newydd sef Phil Thomas a Glyn Saunders Jones y ddau o Lanfihangel Genau'r-glyn.



**Yr arbenigwr ar bryfed a gwyfynod Dr Owen Jones, Caerdydd ,(ail o'r chwith) ar ymweliad â Chylch Cinio Aberystwyth gyda Ceris Gruffudd Yr Athro Geraint Vaughan (Cadeirydd) a Richard Owen.**

Da oedd gweld bod Roy James wedi dychwelyd i'r Cylch.

Braf hefyd oedd cael cwmni John Williams a Rees Thomas y ddau wedi cael triniaethau yn yr ysbyty.

Eglurodd yr Ysgrifennydd Huw Williams bod swydd Is-Gadeirydd yn parhau yn wag a bod angen llenwi'r swydd ar fyrder er mwyn cynllunio ymlaen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd pawb wrth eu bodd o ddeall bod Cynog Dafis wedi cyflwyno ei enw i'r swydd ac ef fydd y Cadeirydd y Cylch o fis Medi ymlaen.

Bydd ein cyfarfod ym mis Mai yn y Clwb Golff a'r gŵr gwadd fydd y Dr Dylan Wyn Jones.

# Eisteddfod Penrhyn-coch 2025

## Gorwel

cymylau pell
ac agos yn gymysg
bratiog pluog llaethog llwyd llwm
a'r haul ynddynt yn ddisg
rhy lachar

yn wal o blwm mud
neu'n denu â glas cyfrin
croen swil rhwng llenni gwyn
yn fflyrtian

daw'r hwyr â broliant sêr

**rhwng môr ac awyr mae trwch ellyn o ddu a gwylan yn pwytho rhyngddynt i wnïo'r hollt**

lympiau Pen Llŷn yn gorffwys ar linell
harbwr caled yn gwegian dan heli rhwydi rhaffau casgenni
cychod coch pysgod petrol halen
tonnau a thonnau a thonnau
cerrig yn clecian dannedd wrth frathu ymlaen yn ôl
cytiaid yn rhedeg ffwdanu i baru brasgamu rhag ewyn
drudwy yn arllwys yn guriad brith i glwydo dan y Pier
a'r dref yn drwsgl

***Lowri Emlyn***



**I gyfarch Lowri ar ennill Cadair Eisteddfod Penrhyn-coch 2025**

Dyma gerdd i dy longyfarch
ar dy lwyddiant. Daeth dy gân
fyny'r brig at gopa'r rhestr;
maeddaist feirdd, rhai mawr a mân.

O'r testunau yn y rhaglen
dyma'r 'Gorwel' aeth â'th fryd
a'i ddrudwyod brwd a'i donnau –
gair a delwedd ddaeth ynghyd.

Yn y neuadd yma heno
braint yw cyfarch bardd o'r fro.
Mae dy wobr yn fan cychwyn –
gwn daw mwy mewn dim o dro.

Braf yw cyfarch llenor lleol,
hyfryd cyfarch merch o fardd.
Clod yr ŵyl sy'n llanw'r gorwel,
trodd dy ddawn yn gadair hardd.

***Anwen Pierce***

## Pe bawn i.....

Pe bawn i'n fry aderyn,
yn esgyn drwy y coed.
Hedfanwn draw yn sydyn,
at fy nghyfaill gorau 'rioed.

Pe bawn i'n chwim bysgodyn,
yn dawnsio'n llif y nant.
Fe wibiwn drwy yr ewyn,
Ti yw'r delyn, fi di'r tant.

Pe bawn i'n goeden dderwen,
yn gadarn, gref ers oes.
Fe gollaf ddail a changen,
i'th arbed unrhyw loes.

Pe bawn i'n gopa'r mynydd,
uwchben cymylau fry.
Rhag genllysg, rhew a stormydd,
Rhown gysgod teg i ti.

Pe bawn i'n seren lachar,
ar noson oer a chlir.
Goleuwn lwybr disglair,
I'th arwain ataf i.

Cytgan:
Achos ti ydi ti, ti ydi ti.
dros erwau aur ein siwrne faith,
rhaid cynnal ffydd a gobaith (x2)

***Dyfan Phillips***



**Lynwen Evans enillodd y frawddeg a'r adolygiad.**

## Englyn: Ffwrnais

*Ar hyd ffin Gaza ac Israel mae anemoni coch yn tyfu'n wyllt eto.*
*Mae'r blodau yn symbol o adlamiad i bobl Gaza ac Israel.*

Rhwng môr a rheng y muriau -darn o dir
wedi'i droi'n dwll bomiau,
er hyn, fe wnaiff natur hau
o ludw, maes coch o flodau

***Siw Hartson***



Sion, Kai a Iona, enillwyr yr unawd offeryn cerdd nos Wener



Rhun Emlyn, enillydd yr her adroddiad




Enillwyr Sgen ti dalent nos Wener - Henry, Sion, Ifan, Anest a Iona

**Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch - enillwyr cartref 2025**

Cadair: Lowri Emlyn, Penrhyn-coch
Englyn: Siw Hartson, Staines, Middlesex
Cân werin: Dyfan Phillips, Rhuthun
Cerdd i blentyn: Judith Morris, Penrhyn-coch
Limrig: Bethan Evans, Glynarthen
Brawddeg: Lynwen Evans, Llandre
Stori i blant: Anwen Pierce, Bow Street
Erthygl: John Meurig Edwards, Aberhonddu
Adolygiad: Lynwen Evans, Llandre
Tlws yr ifanc: Robin Humphreys, Pistyll, Pwllheli

Ceir y canlyniadau llawn ar wefanau Trefeurig a Cymdeithas Eisteddfodau Cymnru a tudalen Facebook Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch



Iona, Poppy ac Anest enillwyr llefaru bl 5 a 6



Parti CA2



Enillwyr yr Unawd Gymraeg – Barry Powell, Efan Williams ac Aled Jones



Joshua, Lleucu a Siôn

# Cadwyni

Sŵn drws dwbl trwm yn cau.

Traed yn llonyddu.

Y sibrwd tu ôl i ddwylo'n stopio.

Mae pawb yn aros.

Dwi'n clywed fy nghalon yn dyrnu mynd nes ei fod yn gyrru cryndod i lawr fy asgwrn cefn.

Mae Cai a fi'n cyfnewid edrychiadau a dwi'n gweld ei deimladau, y gymysgedd o ofn a gobaith yn creu lliw newydd o fewn ffrâm ei lygaid.

Mae'r siwt du amdano o leiaf dau faint yn rhy fawr iddo. Dwi'n edrych i lawr ar fy siwt i, fy llaw ar goll o dan fy llawes ac ôl plygu blêr yn greithiau ar hyd fy mhengliniau.

Dwi'n trio canolbwyntio ar anadlu. Mewn, allan, mewn, allan, mewn, allan.

Dwi bron â mygu.

Dwi'n mwytho'r gadwyn ar fy ngarddwrn gyda fy mysedd.

"A wnaiff pawb godi os gwelwch yn dda?"

Mae Cai a fi a pawb yn y llys yn codi.

*****

Dwi'n bump oed. Mae Cai, wyth oed, yn eistedd wrth fy ochr ar y soffa yn gwylio Sam Tân.

A mwya sydyn, dwi'n gweld.

"Ymmm Cai, beth sydd wedi digwydd i dy fraich di?"

Dwi'n edrych ar y cleisiau piws a du fel map o wledydd y byd ar ei fraich. Mae golwg y diawl arno fel tasa fo wedi cael ei lusgo drwy filiynau o wrychoedd drain.

Pêl-droed gafodd y bai gan Mam a Dad ond dwi'n gwybod bod rhywbeth ddim yn iawn.

Ac mae fy mrawd yn gwrthod edrych arna i, ei lygaid yn neidio o sgrin y teledu i waliau llwyd y lolfa. Mae'n tynnu llawes ei hwdi dros ei fraich.

*****

Dwi'n saith oed.

Dwi'n agor ceg y bin ac yn gweld tameidiau o bapur gwyn wedi eu torri'n flêr. Dwi'n edrych dros fy ysgwydd. Does neb yn y gegin. Dwi'n mentro. Yn ara bach, dwi'n rhoi'r tameidiau at ei gilydd eto fel gwneud jig-so, ac yna dwi'n darllen y geiriau. Dwi ddim yn dallt.

Cai.

Pelydr X.

Ysbyty.

Dwi'n clywed y drws yn gwichian. Mam. Mae'n ei llygaid yn rhuthro rhwng fi a'r llythyr. Mae ei ffroenau'n agor mor llydan â drws 'stabal.

Ac yna mae Dad yn dod i mewn. Mae ei lygaid yn taflu cyllyll rownd y gegin wrth iddo drio gwneud synnwyr o'r olygfa o'i flaen.

"Pam wyt ti'n sbio fana y diawl busneslyd?"

Yn sydyn, mae'n taflu y bowlen ffrwythau oddi ar y bwrdd nes ei fod yn chwalu'n deilchion ar hyd y llawr, y darnau yn sgrialu i bob cornel o'r ystafell. Dwi'n trio rhedeg am y drws ond mae llaw Dad yn brathu ar fy ysgwydd.

Mae hi'n rhy hwyr.

Y bore wedyn, does neb yn dweud dim. Mae Mam wedi golchi dillad ysgol Cai a fi. Cyn i mi fynd drwy'r drws, mae'n edrych ar fy ysgwyddau sydd wedi plygu'n fach, ar fy mreichiau crynedig. Mae'n syllu ar fy nillad, y coler, y llewys hir. Er ei bod hi'n ddiwrnod braf, mae'n estyn fy nghot a cau'r sip yn dynn heb edrych yn fy llygaid.

"Paid â meiddio dweud dim" mae'n dweud rhwng ei dannedd.

*****

Nain. Hi oedd angor Cai a fi.

Wrth i ni gael ein llusgo yn ddyfnach i mewn i dwnnel o gelwyddau, Nain oedd yno.

Roedd Nain fel rhyw botel ddŵr poeth, yn ein amgylchu gyda cynhesrwydd, yn golchi'r ofn a oedd yn glynu pob awr o'r dydd.

"Rydych chi'n gryfach nag ydych chi'n feddwl" roedd hi'n arfer ei ddweud.

Mi driodd Nain ei gorau. Mi driodd pob ffordd i symud Cai a fi ati hi. Mi driodd ein gwarchod ni ond mi oedd o'n sefyllfa amhosib iddi. Mam oedd ei merch hi wedi'r cwbl.

*****

Chafodd Cai a fi erioed fynd i'r un parti pen-blwydd, fynd i wylio teledu yng nghartrefi plant eraill y dosbarth ar ôl ysgol, fynd i chwarae pêl-droed ar brynhawniau Sadwrn mewn gerddi taclus ac oglau gwair newydd ei dorri hyd y lle.

A dyna pam roedd y prynhawn hwnnw mor annisgwyl.

"Ymmm Mam, plis ga'i fynd i chwara yn tŷ Osian? Mae o'n cynnig i mi fynd a cysgu drosodd? Plis, plîs Mam?"

Sŵn y cloc yn tipian. Yr eiliadau yn llusgo.

"Iawn, dos ta."

Doedd hyn byth yn digwydd. Arhosais yn fy unfan, yn disgwyl y geiriau croes, y bygythiadau, y rhegi ond ddaeth nhw ddim.

Nos Wener oedd hi. Roedd yr haul yn dechrau machlud, y golau aur yn chwarae rhwng canghennau'r coed ac yn dawnsio ar hyd y stryd. A dwi'n cofio'r teimlad wrth i'n tŷ ni fynd yn bellach ac yn bellach tu ôl i mi fel petai gafael y cadwyni yn dechrau llacio. Cerddais yn gyflymach, fy nhraed yn taro'r llawr gyda theimlad o frys fel pe bawn i'n rasio yn erbyn cloc.

Cerddais drwy'r giât at ddrws coch disglair. Cartref Osian. Roedd sŵn chwerthin i'w glywed tu ôl i'r waliau ac arogl lemwn a fanila yn fy hudo yn nes.

"Helo ngwas i. Tyrd i mewn!" meddai Mam Osian, ei llais fel blanced feddal.

Roedd yr awyrgylch yng nghartref Osian mor wahanol i'n tŷ ni. Y waliau melyn wedi'u haddurno â lluniau teulu yn llawn wynebau'n gwenu a cynhesrwydd yn tasgu o bob cornel fel bod cariad ei hun wedi treiddio i mewn i ddeunyddiau'r tŷ.

"Helo!" gwaeddodd Osian gan redeg ataf fi a dyma'r ddau ohono ni'n rhuthro fyny grisiau i adeiladu bydoedd dychmygol lle roedden ni'n arwyr, yn brwydro yn erbyn gelynion anweledig.

Roeddwn i'n hedfan.

Ac yna, sŵn y ffôn yn canu yn y cyntedd a sŵn rhyfedd ar lais Mam Osian. Cnoc ar ddrws stafell Osian.

"Sam bach, mae'r alwad yma i chdi."

Rhewais. Ffrwydrodd emosiynau drwy nghorff wrth glywed llais Mam. Llais ffug. Llais actio. Llais efo sŵn dagrau yn drwm ar y geiriau.

"Nain... tydi hi ddim wedi'i gwneud hi!" Aeth ystafell wely Osian yn ddu. Llifodd pob owns o hapusrwydd o fy nghorff. Roedd sŵn fy nghalon yn curo wedi'i foddi gan anhrefn fy meddwl. Sut allai hyn ddigwydd? Pam Nain? Pam Nain o bawb?

Wrth i mi gamu o ddrws cefn tŷ Osian, daeth y wisg gyfarwydd o gadwyni yn ôl amdani fel siaced anghynnes.

Clywais sŵn aneglur y teledu'n adleisio o'r lolfa.

"Lle ddiawl ti 'di bod Sam?' gwaeddodd Dad o'i gadair heb hyd yn oed edrych arna i, ei lais yn dirgrynu dan fy nhraed. Wnaeth o ddim hyd yn oed gofyn os oeddwn i'n iawn.

"Dos i dy stafell. Wan."

Drwy gil drws y gegin, roedd Mam yn eistedd yn y tywyllwch, yn troelli ei siwmper rhwng ei bysedd. Edrychais ar y gwpan coffi heb ei yfed ar y bwrdd. Am eiliad, roeddwn i'n teimlo bechod drosti.

Wythnosau wedyn, wrth dyrchu rhwng fy llyfrau Mathemateg, sylwais ar amlen wen, berffaith sgwâr. Roeddwn i'n adnabod y lawysgrifen yn syth. Llenwodd y dagrau yn gefnforoedd i'm llygaid. Agorais yr amlen.

*Annwyl Cai a Sam,*

*Os ydych chi yn gweld hwn, mi fyddwch chi'n gwybod mod i wedi mynd i lofft Sam i'w adael a dwi'n gweddio na fydd eich Mam na'ch Tad yn ei weld.*

*Da chi'n gweld, dwi ddim yn dda. Mi fyswn i wedi dymuno cael dweud hyn wyneb yn*

*wyneb ond wnaiff eich Mam ddim gadael i mi ac mi wyddoch am berthynas eich Mam a finnau... Does gen i ddim egni bellach ac mae grym eich Mam a'ch Tad yn rhy fawr.*

*Does gen i ddim llawer o amser eto ac mae'n torri nghalon i na fyddai yma ddim mwy i fod efo chi'ch dau. Chi, y ddau bwysicaf yn fy mywyd. Dwi wedi trio ngorau i'ch gwarchod chi. Rydych chi'n haeddu gwell na hyn. Rydych chi'n haeddu teimlo'n saff, teimlo hapusrwydd a llawenydd heb ofn, popeth a fethodd eich rhieni ei roi i chi.*

*Ond cofiwch, rydach chi'n gryfach nag ydych chi'n feddwl.*

*Mi fyddai efo chi o hyd, bob eiliad o'r dydd. Mi fyddai ar eich ysgwydd drwy'r gwynt a'r glaw. Byddwch ddewr, byddwch gryf a dyfalbarhau.*

*Peidiwch gwneud yr un camgymeriadau a mi. Peidiwch cadw'n dawel. Mae'r tawelwch yn eich bwyta'n fyw yn y diwedd nes bod eich tu mewn wedi mynd yn ddim. Dudwch rywbeth, wrth rywun. Gwnewch hynny i mi.*

*Caru chi, am byth,*
*Nain*
*xxx*

Yng ngwaelod yr amlen, roedd hances bapur crychlyd, a theimlais rhwng fy mysedd rywbeth llyfn ac oer. Cynhyrfodd chwilfrydedd ynof, a thynnais gadwyn arian, a›i pherlau'n disgleirio hyd yn oed yn y golau isel. Doeddwn i erioed wedi'i weld o›r blaen, ac eto roedd yn teimlo›n gyfarwydd rhywsut, fel pe bai wedi bod yn aros amdanaf. Roedd yna grwban bach a oedd yn edrych fel ei fod isio bod yn fyw, calon fach a seren fach.

Am y tro cyntaf ers amser maith, teimlais fflachiad o obaith yn tanio ynof. Bron na allwn weld gwên Nain eto, teimlo cryfder ei hysbryd yn llifo o nghorryn i'm nhraed.

Y noson honno, wrth imi glywed y bloeddiadau cyfarwydd a'r drws yn clepian, gafaelais yn dynn yn y gadwyn gan wybod nad oedd Cai a finnau ar ein pennau ein hunain yn llwyr. Waeth beth ddigwyddodd, roeddwn i'n benderfynol o gredu y gallai cariad Nain ein arwain o'r tywyllwch.

*****

"A diolch i Nain rydan ni yma heddiw."

Mae'r ystafell fel petai yn dal ei anadl.

Am y tro cyntaf ers bron i hanner awr o siarad, dwi'n codi fy mhen.

Wrth fy ochr, mae Cai, y chwys yn rhedeg o'i dalcen ac yn creu map o lwybrau ar ei siwt du dau faint yn rhy fawr. Mae'n troi i edrych arna i a dwi'n gweld y wên leiaf un yn lledu o fewn ffrâm ei lygaid.

Am y tro cyntaf, dwi'n troi i edrych ar y ddau yn y doc. Mae llygaid Dad yn taflu cyllyll tuag ataf ac mae Mam yn troelli ei siwmper rhwng ei bysedd.

Dwi'n trio canolbwyntio ar anadlu. Mewn, allan, mewn, allan, mewn, allan.

Dwi bron â mygu.

Dwi'n mwytho'r gadwyn ar fy ngarddwrn gyda fy mysedd. Fesul un, dwi'n teimlo'r galon fach gynnes, y seren a'i chorneli pigog sydd wedi mynd yn llyfn wedi misoedd o'i gyffwrdd, a'r crwban bach sydd mor agos at ddod yn fyw.

Mae nghalon yn arafu eto. Dwi'n sythu fy nghefn, yn lledu fy ysgwyddau.

"Hi ddangosodd i ni – rydan ni'n gryfach nag ydan ni'n feddwl."

***Robin Humphreys, Pistyll, Pwllheli***

**Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2025: Cerdd addas ar gyfer plant 12-16 oed**

## Perthyn

Coeden yn edrych
dros ei hysgwydd,
a phob cangen a deilen
yn ymestyn
y tu hwnt
i'r ganrif
ddiwethaf.

Hen hen fam-gu a thad-cu
yn slwmbran
ar ddarn o bapur
heb yr un glustog
na chwrlid.


Mwytho'r papur
a chwifio llaw,
yn llawn gobaith
o weld y ddau
yn dihuno
o'u hirgwsg
am orig o sgwrs.

Ond llonydd yw'r ceraint
er gwaethaf
pob cyffyrddiad.
Ac er na fûm erioed
yn eu cwmni,
rwyf bellach
o weld eu henwau
yn eu hadnabod,
a hwythau'n siwr
yn f'adnabod i.

***Judith Morris***

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion
graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

D J Evans
Cyfarwyddwyr
Angladdau
Busnes teuluol gyda dros
60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol
gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*
Gwefan Cymuned Trefeurig
trefeurig.cymru
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website
Trefeurig8


# Myfyrdod y Pasg

Tua dwy fil o flynyddedd yn ôl, croeshoeliwyd dau ddihiryn ac un rabbi Iddewig y tu allan i ddinas Jerwsalem. Roedd hi'n sioe o olygfa a dweud y lleiaf. Nid peth anarferol oedd i'r Rhufeiniaid groeshoelio troseddwyr oherwydd dyna oedd eu ffordd o gadw trefn ar yr Iddewon. Eto i gyd, yr hyn sy'n rhyfedd yw ein bod yn dal i gofio hyd heddiw am y rabbi a groeshoeliwyd, sef Iesu a hynny am mai Mab Duw ydoedd. Tri diwrnod wedi'r croeshoelio fe'i hatgyfodwyd er mawr syndod i'w ddisgyblion a'i ddilynwyr.

Mae Gŵyl y Pasg yn uchafbwynt y calendr Cristnogol. Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fyddwn yn dathlu atgyfodiad Crist a chyhoeddi ei fod wedi concro marwolaeth a dryllio pyrth y bedd. Dangosodd yr atgyfodiad nad drygioni dyn oedd â'r gair olaf ond daioni Duw, yn ein rhyddhau o grafangau casineb, cynnen a thristwch.

Nid oes dim sy'n dangos hyn yn well na phrofiad Mair Magdalen. Hi oedd y person cyntaf i ddod wyneb yn wyneb â'r Crist byw wedi iddo gael ei gyfodi. Teithiodd at fedd Iesu yn blygeiniol ar fore'r trydydd dydd yn ei galar a'i hiraeth amdano. Cafodd siom aruthrol wrth ddarganfod bod y maen a osodwyd ar draws agoriad y bedd wedi'i symud a chorff Iesu wedi diflannu. Roedd y bedd yn wag ac felly meddyliodd bod rhywrai wedi dwyn ei gorff. Yn ei thrallod a'i thristwch holodd y garddwr er mwyn cael gwybod ymhle yr oedd y corff wedi'i osod, heb sylweddoli mai'r Iesu oedd y garddwr yn ei wedd atgyfodedig.

Druan o Mair! Nid yn unig yr oedd hi wedi gweld yr Iesu ar groesbren yn marw yn y ffordd mwyaf arteithiol rai dyddiau ynghynt ond bellach roedd ei gorff wedi cael ei ddwyn. Mae'n siwr fod pob math o gwestiynau wedi pentyrru yn ei meddwl ond ei chonsyrn pennaf oedd sicrhau bod corff Iesu yn derbyn y gofal priodol.

Os oedd Mair eisoes wedi profi siom dybryd, cafodd syndod o'r mwyaf wrth iddi glywed llais yr Iesu yn ymateb i'w chwestiwn. Na, nid y garddwr ydoedd wedi cyfan, ond Iesu. Mewn amrantiad rhyddhawyd Mair o'i phoen a'i gwewyr ac ufuddhaodd i'w gais gan fynd ar ei hunion i rannu'r newyddion da gyda'r disgyblion. Roedd yr Iesu'n fyw ac wedi trechu casineb a chreulondeb Gwener y Grog, a hithau wedi ei rhyddhau o'i thrallod.

Yn yr un modd daw'r Iesu atom heddiw, dro ar ôl tro, yng ngrym ei atgyfodiad i'n rhyddhau o drallod, tristwch a chasineb ein hoes ac i'n hatgoffa mai daioni a chariad Duw sydd â'r gair olaf yn ddi-ffael. Mewn groglith o fyd sydd ag angen dybryd am gael clywed y newyddion da rhaid i bob Cristion heddiw gyhoeddi neges yr Atgyfodiad a rhannu'r gwirionedd syfrdanol sy'n parhau i drawsnewid bywydau miliynau ar bob cyfandir.

**Judith Morris**

## Difyrion Digidol gan Deian ap Rhisiart

Yn gynharach eleni, lansiodd Gwreiddiau Gwyllt gronfa adnoddau natur newydd sbon sy'n le i chwilio am adnoddau natur yn y Gymraeg ar gyfer pob oed. https://www.gwreiddiaugwyllt.cymru/ Yr ydym yn ffodus iawn o'r adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg ar gyfer byd natur fel grŵp Llên Natur gyda Bywiadur ac mae'r adnodd hon yn ychwanegiad gwych i'r rhestr.

Nod prosiect Gwreiddiau Gwyllt sy'n brosiect sy'n cael ei arwain gan Mentrau Iaith Cymru ac wedi'i ariannu gan y Gronfa Dreftadaeth yw hybu twf mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â byd natur yn y Gymraeg, gan gynnwys defnydd o dermau Cymraeg ar fywyd gwyllt.

I chwilio'r gronfa, mae yna opsiynau i bobl o bob oed, gyda dewislen cynefinoedd sy'n rhoi dewis yn amrywio o 'arfordir', 'Gardd', 'gwlyptir' 'môr' a 'mynydd' ymhlith nifer eraill o gynefinoedd. Yna, mae yna wahanol ystod oedran i'w ddewis – 5-7 hyd at oedolion. Mae'r adnoddau yn gallu bod yn ddogfennau cynhwysfawr ar gyfer oedolion ond hefyd yn bamffledi i ddiddanu plant bach ar drywydd bywyd gwyllt. Os y dewisir ystod oed 7-10 a chynefin 'Rhos a Mynydd' er enghraifft, mae yna sawl adnodd ar gyfer gloynnod byw i blant a chardiau adnoddau er mwyn gwasgaru hadau i blant. Ceir hefyd lyfryn llawn syniadau am weithgareddau yn yr awyr agored yn ymwneud â natur gan Ymddiriedolaeth John Muir gyda chefnogaeth Urdd Gobaith Cymru. Pe byddech yn dewis 'dwr croyw' fel testun, ac 'oedolion', fe ddaw 'Canllaw adnabod infertebratau'r pwll' sy'n adnabod infertebrau mewn dwr pwll fel gwas y neidr a malwod.

O ran oedolion, os y rhowch môr ac oedolion fel cyfuniad, mi ddaw'r ap hwn 'Plantnet' i fyny sydd ar gael yn y Gymraeg. https://identify.plantnet.org/cy Yr hyn sy'n wych am y platfform hwn yw'ch bod yn gallu adnabod planhigion trwy gyfrwng y Gymraeg. Offeryn yw Pl@ntNet i helpu i adnabod planhigion â lluniau. Fe'i trefnir fesul gwahanol fflora thematig a fflora daearyddol. Dewiswch yr un sy'n cyfateb i'ch rhanbarth neu faes diddordeb. Yn ôl y wefan, "Os nad ydych chi'n gwybod beth i'w ddewis, dewiswch "Fflora'r Byd" sydd â'r sylw ehangaf ond a fydd yn rhoi canlyniadau llai cywir na fflora â mwy o ffocws." Mi wnes i dynnu llun o genhinen pedr o'r ardd a'i lwytho ar y wefan ac fe wnaeth ei adnabod yn gywir gan roi'r enw yn Saesneg a Lladin. Dyma ffordd wych o ddod i adnabod planhigion a bywyd gwyllt yn iaith y nefoedd. Mae'r ap hwn yn addas i bawb o 11 oed ymlaen ac yn gyfle da i ddysgu defnyddio technoleg, dysgu am blanhigion a chael hwyl fel teulu.

Mae gwrando ar Galwad Cynnar ar BBC Radio Cymru, ar foreau dydd Sadwrn trwy BBC Sounds wastad yn bleser ac mae'n ysgogi rhywun bob tro i fynd allan i'r awyr iach i chwilota a gwneud yn fawr o'r bywyd gwyllt fel unigolion ac fel teulu, ond cofiwch erbyn hyn mae gennych chi ap plantnet sydd yn eich galluogi i chi adnabod planhigion trwy gyfrwng y Gymraeg a phob math o adnoddau defnyddiol iawn ar Gwreiddiau Gwyllt.

Os hoffech gymorth neu gyngor ar unrhyw agwedd o'r byd digidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

## Goginan

**Cymdeithas Goginan**

Cynhaliwyd noson ddiddorol yn y Druid yng nghwmni Kate O'Sullivan, milfeddyg. Fe fu yn dangos lluniau o amryw o lawdriniaethau mae wedi gwneud yn sgil ei gwaith fel arbenigwraig mewn trin anifeiliaid anwes. Braf oedd gweld canlyniadau ambell driniaeth mewn ffilm o'r anifail yn symud yn hapus.

**Awyrblymio**

Ar ôl sgwrs rhwng dau neu dri un noswaith yn Nhafarn y Druid yn dweud y byddent yn hoffi awyrblymio rhyw dro fe aeth y tri yn ddwsin a byddant yn mynd lawr i Faes Awyr Abertawe ar Fedi 14 i gyflawni eu dymuniad.
Penderfynwyd y byddai yn beth da i fanteisio ar y cyfle i godi pres a maent wedi dewis yr elusen HAHAV Ceredigion.

Fe fydd Rhian Dafydd a Deian Creunant yn mynychu y Druid ar yr wythfed o Fai i ddweud ychydig o hanes yr elusen HAHAV sydd yn cael ei harwain gan wirfoddolwyr a sydd yn darparu cefnogaeth i bobl â salwch anweladwy a hefyd y rhai sydd yn dioddef o salwch sydd yn cyfyngu bywyd. Mae yna ffurflenni noddi i'w cael yn Nhafarn y Druid ac os ydych eisiau unrhyw wybodaeth pellach siaradwch gyda Nigel. Cadwch lygad allan am ddigwyddiadau codi arian yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Gwe Cambrian Web**
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.

Cysylltwch heddiw!

GWE Cambrian WEB

cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb



*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

*Perchnogion : Gwyn & Janet Evans*
*Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS*

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

*Ffôn 01970 820013*
*ebost : gwyn@ ct-evans.com*

**DIGIDA**

Cyrsiau arlein i fusnesau, mudiadau ac unigolion.
Cyrsiau arlein byr, adnoddau, cymuned a digwyddiadau byw.
Rhowch hwb i'ch marchnata digidol.

**Gwefannau**
WordPress, Optimeiddio Peiriannau Gwe, Google Analytics

**Cyfryngau Cymdeithasol**
Facebook, Instagram, TikTok

**Marchnata**
Strategaeth Marchnata Digidol, Blogio a mwy.

Gyda mwy o gyrsiau yn cael ei ychwanegu yn rheolaidd.

ARFOR Creu gwaith - cefnogi'r iaith | GWE Cambrian WEB | digida.cymru @digidacymru




## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor **nos Fawrth, 18 Chwefror 2025** yn Festri Horeb, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd Delyth James, Dai Mason, Gwenan Price, Eirian Reynolds a Meirion Roberts yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir.

Croesawyd Jim Wallace i'r cyfarfod i roi cyflwyniad am waith Cronfa Eleri.

Gohebiaeth: Carthffosiaeth - adroddwyd fod problem wedi codi gyda charthffosiaeth yn codi i'r wyneb ger 1 Glanceulan. Tacluso'r pentref – penderfynwyd cael diwrnod o dacluso'r pentref gan wirfoddolwyr, y dyddiad i'w gadarnhau. Dywedodd y Clerc y gallai hi sicrhau yr offer priodol ar gyfer y gwaith.

Ceisiadau am grantiau: ystyriwyd ceisiadau am grantiau i fudiadau lleol (yn bennaf). Fel yn 2024 penderfynwyd cyfyngu'r grantiau i £200 gan fod rhagor o ofynion ar gyllid y Cyngor bellach gan fod y Cyngor Sir am i'r Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb am rai dyletswyddau. Dyfarnwyd £200 yr un i'r canlynol: Neuadd y Penrhyn, Adran Iau Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch, Cae Chwarae'r Penrhyn (PATRASA), Cae Chwarae Pen-bont, Cylch Meithrin Trefeurig, Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Penrhyn-coch, *Y Tincer*, Gwefan Trefeurig, Eisteddfod Penrhyn-coch, Brownies Penrhyn-coch, HAHAV, Aberystwyth.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sir am faterion perthnasol.

Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion

**Cwmni Drama'r Plant Afradlon**
yn cyflwyno
'**Ymlaen**' gan Rhiannon Parry
**Cwmni Doli Micstiyrs**
yn cyflwyno
'**Noson Olaf o Ryddid**' gan Sion Pennant
Ac eitemau gan berfformwyr ifanc lleol eraill
**7:30 Nos Fawrth 22ain Ebrill 2025 Neuadd Rhydypennau**
£5 i oedolion - plant ysgol am ddim

# Bow Street

**Capel y Garn**
**10.00**
*Ebrill*
20 Watcyn James Sul y Pasg
27 John Tudno Williams

*Mai*
4 Lyndon Lloyd
11 Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
18 Cymanfa Ganu – Capel y Morfa
25 Delyth Morgans Phillips

**Suliau Noddfa**
*Ebrill*
27 Cyfeillach yng ngofal Hywel Roberts

*Mai*
4 Uno yn y Garn
11 Richard Lewis. Cymundeb
18 Y Gymanfa
25 Richard Lewis

**Capel y Garn ym mis Mawrth**

Dechreuwyd y mis ar fore Sul, Mawrth 2il, gyda Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd. Chwiorydd y Garn a'r Noddfa fu'n cyflwyno'r geiriau gwerthfawr oedd wedi eu paratoi eleni gan chwiorydd o Ynysoedd Cook yn y Môr Tawel.

Dridiau wedyn, brynhawn Mercher, Mawrth 5ed, daeth Cymdeithas y Chwiorydd ynghyd ym mwyty Crefftau Pennau ar gyfer ei chyfeillach fisol.

Gwasanaeth ar y sgrin oedd hi'r Sul canlynol gyda'r Parch. Ifan Roberts yn arwain o Gaerdydd. Y Parch. Ddr John Tudno Williams fu'n arwain ein haddoliad ar Fawrth 16, pryd y cafwyd gwasanaeth cymun, a Dr Rhidian Griffiths yr wythnos wedyn. Pleser arbennig oedd croesawu ein cyn-weinidog, y Parch. Ddr Watcyn James, yn ôl atom i arwain yr oedfa ar 30 Mawrth.

Daeth tymor y Gymdeithas Lenyddol i ben ar Fawrth 14eg gyda dathliad cawl cennin yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. Cadeirydd y Gymdeithas, Brenda Williams, agorodd y noson, a chafwyd gwledd o fwyd traddodiadol, blasus, a oedd wedi ei threfnu gan Liz Lloyd Jones a Margaret Rees. Yna, cyflwynodd Nia Peris ni i grŵp o bobl ifainc Llandre, sef Enid, Mirain, Miri, Megan a Gruff, a fu'n ein diddanu'n bersain, gyda Mr Tudur Jones, Tywyn, yn cyfeilio.

Diolchwyd iddyn nhw gan Alan Wynne Jones, a chyflwynwyd y casgliad o £258 i elusen Papyrus, sy'n gweithio ledled Prydain i rwystro hunanladdiad ymhlith pobl ifainc.

## Arddangosfa Treftadaeth Neuadd Rhydypennau

Ar 4 Ebrill croesawodd Neuadd Rhydypennau gynulleidfa fawr i lansiad ei Arddangosfa Treftadaeth drawiadol. Fe'i curadwyd gan Gordon Jones ac mae'n amlygu hanes y Neuadd ers 1920 trwy wyth bwrdd arddangos dwyieithog yn y brif Neuadd ac un yn Ystafell Leri, gyda'r deunydd wedi'i gasglu o archifau, amgueddfeydd, a chyfraniadau lleol.

Gwyliodd y mynychwyr fideos hynod ddiddorol, gan gynnwys cyfweliad rhwng Gareth William Jones a Vernon Jones, a chyflwyniad gan yr Athro Hywel Roberts, oedd yn olrhain hanes y Neuadd gan ddefnyddio cofnodion hanesyddol.

Roedd y digwyddiad yn dathlu dros ganrif o gyfraniadau'r Neuadd i fywyd y pentref.

Mynegodd y Pwyllgor ddiolchgarwch dwys i Gordon Jones am ei ymdrechion di-flino ac i bawb a fu'n rhan o greu'r adnodd hanesyddol cyfoethog hwn.

I'r rhai na fedrodd ddod, neu hoffai gael golwg arall ar Arddangosfeydd Treftadaeth Neuadd Rhydypennau, bydd sesiynau agored i bobl ddod i bori:

*Dydd Gwener 25 Ebrill 10 –12 ganol dydd*
*Dydd Mawrth 29 Ebrill 7– 9 pm*
*Dydd Mawrth 13 Mai 7– 9 pm*












**Capel Noddfa**

"Canaf am ffyddlondeb a chyfiawnder; i ti, Arglwydd, y pynciaf gerdd."

Anwen oedd yn gyfrifol am drefnu Cyfeillach mis Mawrth ac roedd wedi gwahodd Dana Edwards atom i roi sgwrs am ymgyrch Aberystwyth a Cheredigion i gael statws Dinas Llên UNESCO.

Cyn i Dana roi ei chyflwyniad arweiniodd Anwen ni mewn addoliad gan gychwyn gyda emyn Meigant, "Dyro inni dy arweiniad." Yna darllenodd o'r Salmau ac ar Sul y Mamau cafwyd gweddi dros yr holl famau sy'n dioddef ar hyn o bryd ar hyd a lled y byd.

Yn ei chyflwyniad eglurodd Dana mai yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron y datblygodd y syniad o wneud cais i UNESCO am statws Dinas Llên, statws a roddwyd i Glasgow a Lerpwl yn y gorffennol. Nid yw Aberystwyth yn ddinas wrth gwrs ond

wedi gwneud ymholiadau cafwyd ar ddeall fod UNESCO'n fodlon ystyried cais ar waethaf hynny. Aeth Dana ymlaen i egluro'r broses o gyflwyno'r cais a'r manteision allai ddeillio o dderbyn y statws. Cyflwynwyd y cais i UNESCO Prydain ar ddiwedd Ionawr eleni a disgwylir cael gwybod os yw'r cais yn llwyddiannus ar ddiwedd yr haf neu ddechrau Hydref. Mae gan y pwyllgor llywio nifer o syniadau cyffrous os gwireddir y freuddwyd ac amlinellwyd rhai ohonynt gan Dana. Canwyd cyfieithiad Eddie Jones o emyn Philipp Bliss i ddiweddu'r cyfarfod gyda Maria yn cyfeilio. Hywel fydd yn gyfrifol am gyfeillach mis Ebrill.



**Merched y Wawr Rhydypennau**

I ddathlu Gŵyl Ddewi aethpwyd i Libanus, y Borth lle cafwyd swper hyfryd o gawl a phwdin. Yn anffodus methodd ein llywydd Gill Saunders Jones fod gyda ni oherwyydd anhwyldeb. Ein gŵr gwadd oedd Glyn Saunders Jones a rhoddodd hanes *Atebol* o'r dechrau i lle mae heddiw. Diddorol dros ben ac yn agoriad llygaid.

**Clwb Gogerddan**

Llongyfarchiadau i Clwb Gogerddan, sy'n cael ei gynnal yn Ysgol Gynradd Rhydypennau am ennill dwy wobr yng



Ngwobrau Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol gan Clybiau Plant Cymru 2025. Cyflwynwyd cyfanswm o 10 gwobr ar y noson i glybiau o bob cwr o Gymru. Roedd hi'n noson arbennig o lwyddiannus i un o Glybiau y Tu Allan i'r Ysgol yng Ngheredigion, sef Clwb Gogerddan.

Eu gwobr gyntaf oedd ar gyfer Hyrwyddwr Chwarae – Clwb Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol sydd wedi hyrwyddo hawl plant i chwarae ac ymdrechu i ddarparu cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel i'r plant yn eu gofal. Roedd y wobr yn cydnabod y gwerth y mae Clwb Gogerddan yn ei roi ar staff a'r defnydd o'r awyr agored.

Maent wedi defnyddio Cynllun Grantiau Cyfalaf Bach Llywodraeth Cymru, a weinyddir gan yr Uned Gofal Plant yng Nghyngor Sir Ceredigion, i ddatblygu man chwarae allanol ar eu safle, ar dir Ysgol Rhydypennau. Mae hyn nid yn unig wedi bod o fudd i Glwb Gogerddan, ond mae'r Ysgol a Chylch Meithrin Rhydypennau hefyd yn gallu cael mynediad i'r gofod allanol.

Fe wnaethant hefyd ennill gwobr fawreddog Clwb Tu Allan i'r Ysgol y Flwyddyn 2025. Gwobrwywyd hwy am leoliad sy'n ymgorffori'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ac mae'n enghraifft ardderchog o fudd chwarae a gofal plant o safon i blant, teuluoedd a chymunedau. Cafodd eu buddsoddiad mewn staff ei gydnabod eto, a'u hadroddiad arolygu disglair gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Roedd y nod parhaus i wella a datblygu lleoliad a phwyslais ar les staff a phlant sy'n mynychu yn golygu bod Clwb Gogerddan yn sefyll allan i'r beirniaid.

Dywedodd y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod o Gabinet Cyngor Sir Ceredigion dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: "Llongyfarchiadau i Glwb Gogerddan ar ennill y ddwy wobr. Mae Clwb Gogerddan yn darparu gwasanaeth allweddol i deuluoedd sy'n gweithio drwy greu amgylchedd diogel a gofalgar i blant fynychu tra bod rhieni'n gweithio."

Dywedodd Carys Davies, Rheolwr Gofal Plant Strategol Ceredigion: "Mae hwn yn gyflawniad gwych i Glwb Gogerddan. Fel y nodwyd yn eu hadroddiad arolygu CIW diweddar, maent yn dangos eu bod yn angerddol am sicrhau gofal plant o ansawdd uchel cyson i'r plant a'u teuluoedd."

Cynhaliwyd Cynhadledd Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol a Seremoni Wobrwyo Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar 12 Mawrth 2025. Roedd y digwyddiad yn cael ei ffrydio'n fyw ar YouTube a rhoddwyd gwybodaeth werthfawr a pherthnasol i'r sector gan nifer o siaradwyr gwadd.

**Dathlu**

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Beryl Bowen, Maes Ceiro, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 ar y 9 Ebrill ac i Mrs Mair Jenkins, Garregwen, fydd yn cyrraedd yr un garreg filltir ar y 30 Ebrill.

**Dyweddïo**

Llongyfarchiadau mawr i Ben a Laura ar eu dyweddiad. Mae'r teuluoedd yn Bow Street a Llandre wrth eu bodd.

**Talwrn y Beirdd**

Dymuniadau gorau i dîm Talwrn y Beirdd Tal-y-bont – Phil Davies, Gwenallt Llwyd Ifan, Anwen Pierce a Phil Thomas fydd yn recordio Rownd y 16 olaf nos Fawrth 20 Mai. Er iddynt golli yn y rownd gyntaf (Ffoaduraid 74 Tal-y-bont 72) maent wedi cyrraedd yr ail rownd fel y collwyr gyda'r marciau uchaf.



**Prynhawn braf a chynnes am daith hamddenol gyda cherddwyr Rhydypennau ar lannau afon Leri yn ardal y Borth.**

# Y Borth

**Gŵyl Borth Ffest 2025**
Wedi llwyddiant y llynedd, bydd Gŵyl Borth Ffest yn dychwelyd ddiwedd mis Mai am yr ail flwyddyn yn olynol.

Dros gyfnod o 4 diwrnod, o ddydd Gwener 23 Mai tan ddydd Llun Sulgwyn 26 Mai, bydd llu o weithgareddau celfyddydol a chreadigol yn cael eu cynnal yn y pentref.

Dyma fanylion y cystadlaethau arbennig sydd hefyd yn cael eu trefnu fel rhan o'r digwyddiad.

**Cystadleuaeth Celf**
Cystadleuaeth Creu Celf er cof am yr artist Muriel Delahaye. Yr Athro Catrin Webster a Louis Delahaye fydd y beirniaid, a bydd gwobr ariannol i'r enillydd.

Teitl: 'MÔR ART SEA CELF' - paentiad,print, dyluniad neu ffotografiaeth.

Dyddiad cau dydd Gwener 16 Mai.

Dylid cyflwyno'r gwaith i 2 London Place, Stryd Fawr, Y Borth, SY24 5JF.

**2 Gystadleuaeth Ffilm i bobl ifanc o dan 12 a dan 18**
Creu ffilm ar ffôn symudol i ieuenctid er cof am John Hefin. Y beirniad Ed Thomas o gwmni cynhyrchu Fiction Factory, gyda gwobr ariannol i'r enillwyr.

Teitl: 'Rwy'n gweld Y Borth drwy fy llygad bach i - a fy ffôn!'

Ffilm 5 munud o hyd yn yr iaith o'ch dewis.

Dyddiad cau dydd Sadwrn 17 Mai. Dylid anfon y ffeil at elinhefin@gmail.com, gan nodi oedran yr ymgeisydd.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad gyda Heddwen Evans, Heol Clarach, ar farwolaeth modryb – Nesta Wyn Jones, Abergeirw.

**Gŵyl y Bwganod Brain**
Bydd gŵyl boblogaidd y bwganod brain yn rhan o Ŵyl Y Borth unwaith eto eleni.




**Yr ymgyrchydd heddwch Annie Hughes-Griffiths ysbrydolodd un o'r bwganod brain y llynedd.**

Llyfrau a ffilmiau yw'r thema y tro hwn a dylai'r sawl sydd am gystadlu lenwi ffruflen gofrestru erbyn 16 Mai.

Gellir prynu map yn nodi lleoliadau'r bwganod brain gwahanol yn siopau Nisa neu Premier Stores a bydd cyfle i'r cyhoedd bleidleisio dros eu hoff fwgan brain.

Cyhoeddir enwau'r enillwyr brynhawn Sul 26 Mai ar safle murlun Morfa Bodge yng nghanol y pentref.

**Clwb Lego**
Mae Hwb Cymunedol Y Borth ar fin cychwyn Clwb Lego newydd. Bydd y clwb yn cael ei gynnal ar ôl ysgol a bydd yn agored i blant rhwng 8 a 13 oed. Os hoffech gael gwybod mwy, cysylltwch â'r hwb drwy ebostio youth@borthcommunityhub.co.uk neu anfon neges destun ar 07483 356501.



**Gweithdai Cyfansoddi Cân Caryl Parry Jones**
Bydd Caryl yn cynnal gweithdai cyfansoddi cân yn nhafarn y Friendship (SY24 5JA) yn ystod yr wyl. Yr amserau fydd:

- Bore Sadwrn 24 Mai a Sul 25 Mai rhwng 0930 a 1230 (cyfrwng Cymraeg)
- Pnawn Sadwrn 24 Mai a Sul 25 Mai rhwng 1400 a 1700 (cyfrwng Saesneg)

I gadw lle, bydd angen cofrestru yn 2 London Place (SY24 5JF) erbyn 22 Mai. Mae'r siop ar agor rhwng 1100 a 1600 o ddydd Iau i ddydd Sul.

**Cofio Diwedd y Rhyfel**
Bydd parti stryd yn cael ei gynnal gan Hwb Cymunedol Y Borth rhwng 11yb a 2yp ar ddydd Gwener 9 Mai i ddathlu 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd yn Ewrop. Bydd digon o gacennau a digon o ganu, gan gynnwys perfformiadau gan blant Ysgol Craig yr Wylfa. Croeso i bawb ac mae modd dewis talu yr hyn sy'n fforddiadwy ar gyfer cinio.

Probert & Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
Archwiliadau GIG a phreifat
Sbectol a sbectol haul
Lensys cyffwrdd
Gofal llygaid brys
Llygaid sych
15 Stryd y Popty,
Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk
OPTICIAN AWARDS
Maui Jim
ZEISS
Cymraeg

Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV
- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar
GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey
MCS
NICEIC APPROVED CONTRACTOR



**Cymdeithas Henoed**

Mae aelodau Clwb Henoed Y Borth wedi bod yn mwynhau rhaglen brysur o weithgareddau dros y misoedd diwethaf.

Ymhlith y digwyddiadau a gynhaliwyd ers mis Ionawr mae te prynhawn i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi, aerobeg cadair gyda Laureen a sgwrs gan archifydd Ceredigion, Helen Palmer, am hanes a datblygiad addysg yn Y Borth.

Yn y rhaglen ar gyfer y misoedd nesaf y mae ioga cadair, ymweliad â sinema Libanus, sgwrs am China, cyflwyniad i hyfforddi cŵn tywys a sawl te parti.

Mae'r gymdeithas yn cwrdd unwaith bob pythefnos ar brynhawn dydd Iau yn Neuadd Goffa Gymunedol Y Borth ac mae croeso bob amser i aelodau newydd.

Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â'r trefnydd Joy Cook ar 01970 871649.

## Apêl am wirfoddolwyr tân

Mae Brigad Dân Y Borth yn apelio am wirfoddolwyr newydd i ymuno â'r gwasanaeth.

Dyma'r unig frigad dân gwirfoddol ar y tir mawr yng Nghymru ac mae'r orsaf wedi'i lleoli ar y ffordd y tu cefn i'r feddygfa, yn arwain at yr Anifeilfa.

Sefydlwyd y gwasanaeth yn 1950 i helpu Brigad Dân Aberystwyth i ymdopi â'r pwysau ychwanegol a ddaeth yn sgil twf mewn twristiaeth yn yr ardal.


Dros y blynyddoedd, mae'r orsaf leol wedi ymateb i ysgod eang o alwadau brys gan gynnwys tannau mewn eiddo, damweiniau ffordd, achub anifeiliaid, digwyddiadau meddygol a damweiniau awyren.

Yn ogystal â'r Borth ac Ynys-las, mae ei dalgylch yn cynnwys Eglwys-fach, Tre'r-ddôl, Taliesin, Tal-y-bont, Rhydypennau, Llandre, Dôl-y-Bont a Glanwern.

Ar hyn o bryd, mae gan y frigad bump o swyddogion tân gwirfoddol gyda rhai gwirfoddolwyr newydd yn mynd trwy'r broses recriwtio.

Mae'r gwirfoddolwyr yn mynychu sesiynau hyfforddiant rheolaidd yn Y Borth, Aberystwyth a gorsafoedd eraill lle maen nhw hefyd yn dysgu sgiliau arbenigol megis cymorth cyntaf.

Mae manylion am y broses recriwtio a ffurflen mynegi diddordeb i'w cael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru: www.mawwfire.gov.uk/cym/ymunwch-a-ni/recriwtio-diffoddwyr-tan-ar-alwad




**Noson Blasu Gwîn Dylanwad**

Bydd y connoisseur Dylan Rowlands o gwmni Gwin Dylanwad, Dolgellau, yn cynnal noson blasu gwin yng Nghlwb Golff Y Borth ac Ynys-las ar nos Sadwrn 17 Mai.

Yn ystod y noson, sy'n cychwyn am 7 o'r gloch, bydd cyfle i flasu ac i ddysgu am chwech o winoedd gwahanol.

Bydd detholiad o gawsiau a chigoedd oer hefyd yn rhan o bris y tocyn, sy'n costio £20 y pen.

Mae'r digwyddiad ar agor i bawb, boed yn aelodau ai peidio, ac mae modd prynu tocynnau naill ai trwy alw heibio'r clwb neu gysylltu â'r capten Helen Lewis ar 07740 236901 a thalu drwy BACS.

Aiff elw'r noson, gan gynnwys gwerthiant raffl, tuag at elusennau capteiniaid y clwb sef Ymchwil Sepsis a Chlwb Bocsio Aberystwyth.

"Rydyn ni wrth ein bodd bod Dylan yn dod aton ni yn y clwb i rannu ei arbenigedd a'i wybodaeth eang am winoedd. Edrychwn ymlaen at noson gymdeithasol hynod flasus a difyr, tra hefyd yn codi arian at achosion da" meddai Helen.

Mae Dylan wedi bod yn menwforio gwin o Ewrop ers dros 20 mlynedd ac mae'n gyfranwr cyson i raglenni radio a theledu yng Nghymru.



**Dylan a Llinos Rowlands o gwmni Gwin Dylanwad.**


SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH

Perchennog: Laurence Kelly

AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr

Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig

01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH



ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ



01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# Colofn Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

Catrin Pugh Jones

**Cwpan Horton Cup**
Chwaraewyd rownd derfynol *knockout* y gaeaf, ar gyfer Cwpan Horton, rhwng Barbara Flanagan a Karen Evans. Barbara ddaeth i'r brig i gipio'r cwpan mewn gêm agos iawn. Llongyfarchiadau i Barbara ac i Karen am gyrraedd y ffeinal.



**Pencampwriaeth y Gaeaf**
Llongyfarchiadau i Nathan Perkins ar ennill Pencampwriaeth y Gaeaf wrth ddod yn fuddugol mewn dwy o'r cystadlaethau ac yn ail mewn dwy arall. Ymestynnodd ei fantais i gyrraedd sgôr campus o 42 o bwyntiau.

1af Nathan Perkins – 42 pwynt
2ail Alan Shaw – 31 pwynt
3ydd Elgan Rees – 28 pwynt





**Cofio Alan Prytherch**
Er cof am Alan Prytherch, aelod ffyddlon o'r clwb am nifer o flynyddoedd, trefnwyd cystadleuaeth golff a noson gymdeithasol ar ddydd Sadwrn 29 Mawrth gan ei bartner Sue Wilson a'i ferched Rachel, Anna, Esther a Carys er budd elusen Alzheimer.

Dechreuodd y diwrnod gyda gornest Texas Scramble i dimau o dri, gan ddenu 75 o aelodau, gwesteion a chyn aelodau – yn eu plith, sawl un a dderbyniodd hyfforddiant gan Alan pan oedden nhw'n ifanc ac sydd wedi mynd ymlaen ers hynny i gyrraedd safon proffesiynol.

Cynhaliwyd cystadleuaeth pytio i blant hefyd ac, yn ystod y pnawn, dadorchuddiwyd mainc bren er cof am Alan a hynny ar yr ardal ymarfer, lle buodd am flynyddoedd yn hyfforddi ieuenctid y cylch.

Yn dilyn cyflwyno gwobrau i enillwyr y gystadleuaeth golff a thynnu'r raffl, cafwyd adloniant gan fand lleol Chasing Cats. Casglwyd cyfanswm o £1,000 i elusen Alzheimer ar y diwrnod a hoffai'r teulu a'r clwb ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.



Timau'r menywod a'r dynion ddaeth yn fuddugol yn yr ornest Texas Scramble

DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2025

**Corddi Dyfroedd y Gydwybod Gymraeg: Heddychiaeth a Chenedlaetholdeb E. Prosser Rhys**

Darlith gan **Dr Gareth Evans-Jones**
Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor

Nos Lun, 12 Mai, 2025
5.30 o'r gloch
Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

CROESO I BAWB!
Canolfan Morlan / Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816 / 01974 261758

## Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Capel Pen-llwyn: Gwasanaethau:**

*Ebrill*

18 10.00 Gwasanaeth Dydd Gwener y Groglith yng Nghapel y Garn, Dr. Watcyn James yn arwain

20 10.00 Sul y Pasg Oedfa'r ofalaeth yn y Garn Dr. Watcyn James yn arwain

27 Gwasanaeth i'w drefnu

*Mai*

4 10.00 Ifan Mason Davies

11 2.00 John Tudno Williams

18 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu – Capel y Morfa. Arweinydd; Alwyn Evans

25 10.00 Beti Griffiths

**Newydd ddyfodiad**

Llongyfarchiadau cynnes i Angharad a James Graham, 29 Stad Pen-llwyn ar enedigaeth Cora Seren ar Chwefror 28ain. Cafodd Mam-gu Cora fach, sef Bethan Neuadd Parc, ei magu a'i dwyn i fyny yng Nghwmrheidol a mynychodd Ysgol Gynradd Pen-llwyn. Croeso i'r teulu i'r ardal, hyderaf y byddwch yn hapus iawn yn ein mysg ni yma.

**Dathliad arbennig**

Llongyfarchiadau calonnog i Mr. Glyndwr Thomas, 10, Stad Pen-llwyn ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar. Gwelir Glyndwr ar ei draed yn gynnar iawn yn y bore gan fod ganddo rownd laeth lewyrchus. Dymuniadau gorau I'r dyfodol.

**Marwolaeth**

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr. Wyn Davies, gynt o Minafon. Roedd Wyn yn fab i Mr. Haydn a Mrs. Wendy Davies ac yn frawd i Hywel. Bu'r ddau frawd yn ddisgyblion parchus o Ysgol Pen-llwyn rai degawdau yn ôl. Roedd Wyn wedi ymgartrefu yn Sbaen gyda'I briod. Cydymdeimlwn yn fawr a phob un o'r teulu yn eu galar a'u colled, "does neb a ŵyr ond Duw ei Hun, mor fyr a brau yw bywyd dyn".

**Llwyddiant yn Eisteddfodau yr Urdd**

Llongyfarchiadau i bob un a lwyddodd yn Eisteddfodau yr Urdd yn ddiweddar, yn unigol, neu mewn partion, rydym yn falch iawn ohonoch bob un. Dymuniadau gorau pan fyddwch yn teithio I Barc Margam, ddiwedd mis Mai.



Ysgol Pen-llwyn



## Ymddeoliad

Llongyfarchiadau I Mrs. Nia Davies, Ceunant sydd wedi penderfynu ymddeol yn ddiweddar. Bu Nia yn gweithio yn Swyddfa Cyllid y Wlad am 32 o flynyddoedd ac yna am y 17 mlynedd diwethaf yn Swyddfa'r Llywodraeth yn Aberystwyth.
Pob dymuniad da, mwynhewch y seibiant er rwy'n siwr na fyddwch yn segur yn hir, gyda llywyddiaeth Merched y Wawr yn prysur nesau.
Dyma lun o Nia ar ddiwrnod ei hymddeoliad ynghyd a Ms. Jane Tibbott, ei Rheolwr Llinell.




**Prynhawn Allan**

Aeth y rhan fwyaf o aelodau Merched y Wawr Melindwr i ymweld â Argraffdy Tregaron. Cafwyd croeso cynnes i hen adeilad bwyty chineaidd oedd wedi ei drawsnewid yn chwaethus iawn. Mae y fusnes wedi datblygu yn helaeth ers ei sefydlu yn 2019. Mae gweithio yn yr iaith Gymraeg yn fantais fawr, erbyn hyn maent yn paratoi deunyddiau at gyfer busnesau drwy Gymru. Drwy gyfrwng grantiau maent wedi buddsoddi yn helaeth mewn technoleg a peiriannau modern iawn. Diolchodd Lynne yn gynnes iawn i Meilyr ac Euros am y croeso a hanes y fusnes. Mwynhawyd paned a chacen yng nghaffi Halen a Pupur cyn troi am adre.

## Cylch Meithrin Pen-llwyn

Disgyblion Cylch Meithrin Pen-llwyn yn creu llosgfynydd, a mwynhau gweithgareddau'r Pasg a gweithgareddau gwrando.







## Llandre



**Llongyfarchiadau i Licris Olsorts am ddod yn ail yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon ar 21 Mawrth. Cipiodd Megan Griffiths dlws y Perfformiad Unigol Gorau am berfformiad "arbennig iawn" yng ngeiriau'r beirniad, Catrin Jones H ughes o Ynys Môn welir yma yn llongyfarch Megan. Gobeithiant gystadlu yn Eisteddfod Wrecsam.Bydd cyfle i'w gweld yng Ngŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn fuan.**



**Bydd Gruffydd Sion yn aelod o Fand Pres Ieuenctid Cymru a Band Pres Ieuenctid Prydain eleni, a bydd yn treulio cyfnodau gyda'r ddau fand dros y Pasg ac eto yn yr haf, gan ymarfer ar gyfer cyngherddau yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain a hefyd yn Wrecsam, Aberystwyth a Chasnewydd ymhlith lleoliadau eraill. Llongyfarchiadau mawr i ti Gruff!**

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth 29 Mawrth**
(776) cliriad llwyr

Masnachu arbennig gydol y dydd gyda'r ŵyn blwydd yn gwerthu'n arbennig o dda. Prisiau fel a ganlyn:

Ŵyn a mamogiaid (64) Cyf £144 gan Hopkins, Llaingrog.
Defaid lladd (466) Cyf £89.25 Mwy £216 gan Lewis, Sarnau Fawr, Llanfihangel-y-Creuddyn.
Hyrddod lladd (43) Cyf £126. Mwy £194 gan Jones, Abercwmdolau, Capel Bangor.
Ŵyn blwydd (192) Cyf £91 Mwy £153 gan Innovis, Peithyll.
Ŵyn cynnar (5)Cyf £146 Mwy £150 gan Evans, Berthlwyd, Cross Inn.
Sêl dda iawn heddiw gyda prisiau da am bopeth. Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth. Sêl nesaf 26 Ebrill 2025.

**Geni ŵyr**
Llongyfarchiadau i Eirwyn a Nest, Felinhen, ar enedigaeth ŵyr – Osian Llŷr Hughes Jones, mab i Rheinallt ac Amy, Trefgarn, Hwlffordd.

**Ysbyty**
Yn Ysbyty Bron-glais mae Erwyd Howells, Tŷ Capel ac Elizabeth Morgan, Plas y Mynydd, Cefn-llwyd yn derbyn triniaeth. Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r ddau.

**Marwolaeth**
Trist oedd clywed am Dai Powell, Nantybwla a chydymdeimlwn â'i briod Sylvia a'i ferch Catherine. Ar y 3ydd o Ebrill cynhaliwyd angladd David Benjamin Powell yn eglwys St Ioan, Penrhyn-coch a dan ofal y Parchg Lynn Rees a chyflwynwyd teyrnged gan ei ffrind Garth Hughes. Roedd Dai yn aelod ffyddlon a gweithgar yn yr eglwys ac yny misoedd diwethaf treuliodd gyfnodau yn Ysbyty Bron-glais.





**Bydd y rhai sydd yn teithio o Fadog i lawr i Gapel Dewi wedi sylw fod yr arielau wedi diflannu o'r cae ar y chwith. Prosiect Prifysgol Manceinion i fesur y gwynt oedd yma. Adeiladwyd y radar ym 1989 a dechreuodd weithio ym 1990. Rhwng 1997 a 2024 bu'n gweithio'n ddi-dor heblaw am gyfnod o adnewyddu yn 2011. Mae y Tincer yn disgwyl ateb gan y Brifysgol wedi iddynt holi beth fydd yn digwydd efo'r caeau nawr.**

**Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau i Greta Mitchell, Maes y Dderwen, Capel Dewi ar ennill cystadleuaeth unawd blwyddyn 2 yn yr Eisteddfod Ranbarth. Bydd yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dur a Môr ym mharc Margam leni. Daeth Greta hefyd yn ail ar yr unawd cerdd dant. Pob dymuniad da iddi.


RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888



# Ysgol **Rhydypennau**

**Eisteddfod Cylch a Rhanbarth yr Urdd**
Cawsom eisteddfodau llwyddiannus iawn eleni gyda sawl disgybl yn derbyn gwobrau am berfformio yn y Neuadd Fawrth yn yr Eisteddfod Cylch ac yn Neuadd Pontrhydfendigaid yn yr Eisteddfod Rhanbarth. Dyma rai o'n canlyniadau, llongyfarchiadau mawr i bob un a phob hwyl i Greta, Leisi a Bobi-Jo a'r partion Cerdd Dant ac Unsain ym Mharc Margam ym mis Mai.

Eisteddfod Cylch:
Llefaru bl.2 ac iau – 1af Greta Mitchell, 3ydd Lowri Jenkins
Unawd bl.2 ac iau – 1af Greta Mitchell
Unawd Cerdd Dant bl.2 ac iau – 1af Greta Mitchell
Llefaru bl.3 a 4 – 3ydd Leusa Jenkins
Unawd Cerdd Dant bl.3 a 4 – 2il Bobi-Jo Myrddin
Unawd bl.3 a 4 – 3ydd Leusa Jenkins
Unawd bl.5 a 6 – 3ydd Elinor Jenkins
Unawd Cerdd Dant bl.5 a 6 – 2il Leisi Myrddin
Parti Cerdd Dant – 1af
Parti Unsain – 1af

Eisteddfod Rhanbarth:
Unawd bl.2 ac iau – 1af Greta Mitchell
Unawd Cerdd Dant bl.2 ac iau – 2il Greta Mitchell
Unawd Cerdd Dant bl.3 a 4 – 3ydd Bobi-Jo Myrddin
Deuawd Cerdd Dant – 1af Bobi-Jo a Leisi Myrddin
Parti Cerdd Dant – 1af
Parti Unsain – 1af

**Pêl droed**
Ar y 3ydd o Ebrill, bu timoedd pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth rhanbarth yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf. Brwydrodd merched blwyddyn 5 a 6 yn arbennig o dda a llwyddo i gyrraedd y chwarteri. Chwaraeodd tîm bechgyn





blynyddoedd 5 a 6 a thîm cymysg blwyddyn 4 yn neilltuol o dda hefyd gan guro pob un o dimoedd y grŵp. O ganlyniad i hyn aethant ymlaen yn ddiguro trwy'r 16 olaf, y chwarteri a'r rownd gyn derfynol tan cyrraedd y rownd derfynol ble ddaeth y daith i ben. Hen dro – ond ymdrech arbennig gan bob un!

**Gweithgareddau**
Ddydd Mercher 19eg o Fawrth cafodd dosbarthiadau Mrs Jacobs a Miss Jones ymweliad arbennig fel rhan o'u gwaith thema. Daeth staff Canolfan Adar Ysglyfaethus yr Ardd Fotaneg i'w gweld fel rhan o'u gwaith thema er mwyn ehangu eu gwybodaeth am yr adar. Uchafbwynt y dydd oedd cael dal Baldrick y dylluan! Diolch yn fawr iddynt am ymweliad gwerthfawr tu hwnt!

**Helpu'r amgylchedd**
Yn ystod wythnos ola'r tymor, cafodd y plant gyfle i helpu'r amgylchedd trwy gerdded neu sgwteran i'r ysgol o ddau safle gwahanol; o barc Llandre ar yr 28ain o Fawrth ac o'r Orsaf ar y 4ydd o Ebrill. Diolch i Mr Rees am drefnu.

**Coginio**
Bu plant yr adran feithrin yn brysur iawn yn coginio bisgedi ar gyfer Sul y Mamau. Blasus Iawn!



Greta blwyddyn 2



Leisi blwyddyn 6 a Bobi-Jo blwyddyn 4



Parti unsain



Pêl-droed merched



Pêl-droed cymysg bl 4



Pêl-droed bechgyn blwyddyn 5 a 6

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

## YSGOL Y GYMUNED

### Eisteddfod yr Ysgol

Ar ddiwedd Tymor y Gwanwyn cynhaliwyd Eisteddfod yn yr ysgol am y tro cyntaf ers cyn y Cyfnod Clo. Cafwyd prynhawn gwych o gystadlu amrywiol a brwd ac roedd hi'n braf i'r plant gael cyfle i berfformio darnau canu a llefaru Cymraeg o flaen cynulleidfa o dros 50 o bobl. Bydd adroddiad llawn am yr Eisteddfod yn y rhifyn nesaf.

### Ffair Wyddoniaeth

Mae plant Ysgol Craig yr Wylfa yn hoff iawn o ymweld â'r Ffair Wyddoniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth bob blwyddyn. Mae'n ffordd ymarferol a hwyliog o ddysgu am wahanol agweddau o wyddoniaeth. Roedd hi'n hwyl i grwydro o gwmpas y stondinau a chyflawni'r heriau gwahanol. Diolch yn fawr i staff y Brifysgol am drefnu'r digwyddiad ac am fod mor amyneddgar wrth esbonio gwahanol agweddau o wyddoniaeth ar y diwrnod.

### Hwb Gymunedol

Ac i barhau gyda'r thema wyddonol, roedd hi'n hyfryd cael gwahoddiad i'r Hwb Gymunedol er mwyn cael gwers ddiddorol iawn gyda Rachel . Roedd hi'n wych i weld ymateb brwdfrydig y plant i'r gwahanol weithgareddau. Diolch yn fawr i Helen am y gwahoddiad ac i Rachel am y sesiwn ymarferol.

## YSGOL IACH

### Gŵyl Aml-sgiliau

Rydym yn ffodus iawn o gael ein gwahodd i wyliau aml-sgiliau'n aml dros y flwyddyn. Y tro yma y plant hŷn gafodd fynd ar gae aml-bwrpas Prifysgol Aberystwyth i ymarfer gwahanol fedrau mewn amrywiol gampau. Roedd pawb wedi cael amser da ac wedi cael cyfle i gyfarfod eto gyda'n ffrindiau yn Ysgol Tal-y-bont fel rhan o gynllun Pont yr Wylfa.

## YSGOL ECO

### Prosiect Cawl

Mae'r ysgol yn chwilio am gyfleoedd cyson i gyfoethogi ein darpariaeth. Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau cydweithio gyda Kate Fenhalls ar brosiect o'r enw 'Prosiect Cawl'. Nod y prosiect yma yw cynyddu gwybodaeth y plant am dyfu bwyd ac yn y pendraw i ddysgu sut i goginio'r llysiau sydd wedi eu tyfu. Bydd llawer o'r sesiynau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd byd natur hefyd.

## YSGOL GREADIGOL

### Gweithdy Celf

Rydym yn ffodus iawn o'r berthynas glos sydd rhwng yr ysgol â'r Hwb Gymunedol. Yn ystod mis Mawrth, gwahoddwyd plant hynaf yr ysgol draw i'r Hwb i gael gweithdy arbennig gyda'r artist lleol Martine Ormerod. Mae gan brofiad eang o weithio gyda'r ifanc a'r hŷn ac mae ar hyn o bryd yn Gydlynydd Lles ar gyfer oedolion hŷn yn yr Hwb. Bwriad y gweithdy yma oedd dechrau paratoi gwaith y plant ar gyfer arddangosfa BorthFest 2025 fydd yn cael ei gynnal ym mis Mai. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith ar waliau'r Hwb yn fuan.

### Clwb ar ôl Ysgol

Diolch yn fawr i'r staff am yr holl waith wrth gynnal Clwb ar ôl Ysgol hwyliog a bywiog i'r plant. Diolch yn arbennig am baratoi yr holl weithgareddau diddorol er mwyn cadw diddordeb yr ystod oedran.

### Plant 3 oed?

Cofiwch gysylltu gyda ni os oes gyda chi blentyn sydd yn 3 oed, cysylltwch gyda ni er mwyn i ni allu rhannu ein cynlluniau cyn ysgol gyda chi.

### Diolch

Hoffai'r staff ddiolch o galon i rieni a ffrindiau'r ysgol am bob cymorth dros yr wythnosau diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich cefnogaeth i'r ysgol. O drysau glirio'r caban a'r sied i drwsio drysau, mae pob cyfraniad mor bwysig.

Byddwn yn cynnal taith gerdded noddedig ar ddechrau mis Mai – mwy o fanylion yn fuan.















# **Llwyncoch** (Y ddwy ysgol)

**Ymweliad Nyrs Samantha**
Fe wnaeth Nyrs Samantha a Nyrs Liz ymweld â dosbarthiadau Dysgu Sylfaen yr ysgol er mwyn siarad am lendid personol, hylendid y geg a sut i fod yn ffrind da. Roedd y plant wedi ymateb yn wych!

**Eisteddfod yr Urdd**
Da iawn wir i holl ddisgyblion y ddwy ysgol a wnaeth gystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd eleni. Yn wir cafon nhw hwyl arni! Yr oedd y cyntaf a'r ail yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Ranbarth ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Diolch o galon i Mrs. Mair Lewis, Mrs. Marian Evans a Mrs. Sara Gibson am eu cymorth gyda'r ymarferion – yr ydym yn lwcus iawn o rieni a ffrindiau'r ysgol!! Llongyfarchiadau ENFAWR i'r isod:

**Canlyniadau Eisteddfod Gylch yr Urdd**
*Ysgol Penrhyn-coch*
Unawd Bl 2 ac iau – 2il – Ania Hughes
Unawd Bl 5 a 6 – 2il – Ned Williams
Unawd Cerdd Dant Bl 2 ac iau – 2il - Leisia Davies
Unawd Cerdd Dant Bl 3 a 4 – 3ydd - Siôn Gibson
Unawd Alaw Werin – 2il – Poppy Cannings
Grŵp Llefaru – 2il – Ysgol Penrhyn-coch
Côr - 1af – Ysgol Penrhyn-coch
*Ysgol Pen-llwyn*
Parti Unsain – 3ydd – Ysgol Pen-llwyn
Parti Cerdd Dant – 2il – Ysgol Pen-llwyn

**Canlyniadau Eisteddfod Ranbarth**
*Ysgol Penrhyn-coch*
Côr - 3ydd – Ysgol Penrhyn-coch
*Ysgol Pen-llwyn*
Parti Cerdd Dant – 2il – Ysgol Pen-llwyn

**Canlyniadau Eisteddfod Rhanbarth Offerynnol**
*Ysgol Penrhyn-coch*
Unawd Llinynnol – 1af – Harry Curtis
Unawd Telyn – 3ydd – Iona Parry

**Eisteddfod Ddawns Rhanbarth**
*Ysgol Pen-llwyn*
Dawnsio Gwerin Bl 6 ac iau – 1af – Ysgol Pen-llwyn

Pob hwyl i Harry a Grŵp Dawnsio Gwerin Ysgol Pen-llwyn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai!

**Parêd Gŵyl Ddewi**
Braf oedd gweld nifer o blant yn ymuno yn nathliad y dref eleni. Roedd y plant wir yn dangos balchder am fod yn rhan o'r parêd. Diolch i'r rhieni am drefnu.

**Noson rieni**
Braf oedd croesawu rhieni mewn er mwyn i'r disgyblion eu tywys o gwmpas eu gwaith.

Roedd Mam a Dad wedi dod i edrych ar ein gwaith ni. Roedden nhw'n hapus iawn. Roedd ein rhieni yn chwerthin ar fideos ni. Roedden ni wedi mwynhau dangos ein dysgu yn y dosbarth i rieni ni. Gan Olivia a Jac.

**Wythnos wyddoniaeth**
Ar y 11eg o Fawrth 2025, aeth Dosbarth y Drywod i Ffair Wyddoniaeth yn Aberystwyth. Roedd yna lawer o stondinau efo llawer o weithgareddau hwyl i ddysgu ni llawer am wyddoniaeth. Roedd yna acwariwm efo llawer o anifeiliad y môr. Roedd rhai pobol hyd yn oed yn gallu dal 'Hermit Crab'. Gwnaeth e neidio allan o'i gragen a dechrau cerdded ar y llawr! Ond wnaeth e mynd nôl yn y tanc ar ôl hynny. Roedd yna planetariwm hefyd sef dôm mawr du efo lluniau o blanedau a sêr. Roedd yna stondinau diddorol eraill yna hefyd - roedd yn lot o hwyl. Rydyn ni'n edrych mlaen i fynd blwyddyn nesaf eto. Diolch Prifysgol Aberystwyth! Gan Alfie, Evie a Milly.

**Gŵyl Actif Ceredigion blwyddyn 3&4**
Diolch i Geredigion actif am drefnu unwaith eto fore llawn hwyl a sbri yn rhoi blas i flwyddyn 3&4 amryw o weithgareddau i hybu bod yn iach ac yn actif. Pawb wedi mwynhau mas draw.







**Hoci**
Braf oedd cynnal twrnament hoci i flwyddyn 5 a 6 rhwng ysgolion cylch Aberystwyth.

**Twrnament rygbi**
Da iawn wir i'r tîm blwyddyn 5&6 am gystadlu yn nhwrnament rygbi yn Nhregaron, gemau cystadleuol iawn. Diolch i Llywelyn Evans a Miss Rh Jones am eu hyfforddi.

**Ymweliad Awdur - Simon Rodway**
Braf oedd cael ymweliad gan yr awdur Simon Rodway i'r ddwy ysgol. Darllenodd bwt o'i lyfr *Cadi Goch a'r Ysgol Swynion* (Y Lolfa) i ddisgyblion CA2 ac arwyddo copi yr ysgol. Yna, fe wnaeth ateb llawer o gwestiynau'r disgyblion. Cyn ein helpu gyda paragraff cyntaf o'n storïau. Diolch o galon i Simon Rodway am ddod ac i Angharad Siop Inc am drefnu'r ymweliad bythgofiadwy ar Ddiwrnod y Llyfr.





**Diwrnod y llyfr**
Cyfle braf i bawb ddod yn ei pyjamas neu wisgo fyny fel eu hoff gymeriad allan o lyfr i ddathlu diwrnod y llyfr. Roedd gwisgoedd difyr iawn gan rai!

**Ymweliad darlledu yng Nghymru Llyfrgell Genedlaethol**
Roedd CA2 Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn wedi mynd i Lyfrgell Genedleithol Cymru ar drip addysgiadol i ddarganfod mwy am Ddarlledu yng Nghymru. Yna, roeddem ni'n edrych ar ein ffilmiau Coeden Teulu yn y Drwm. Roedden ni'n teimlo fel sêr yn cerdded y carped coch. Hefyd, roeddwn ni'n edrych ar gasgliad o hen ffilmiau a camerau y Llyfrgell. Cawsom hwyl yn cerdded o gwmpas arddangosfa y Llyfrgell o ddarlledu yng Nghymru a chael cyfle i ddefnyddio'r sgrîn werdd i fod yn cyflwynwyr y tywydd. Diolch i Rhodri, Dyfan ac Owain o'r Llyfrgell am ddysgu llawer o bethau i ni. Cawsom ddiwrnod i'r brenin! gan Lilah a Iona.

**Pythefnos stroliwch a roliwch**
Pawb yn frwd wrth bod yn actif wrth gerdded, beicio neu sgwtera yn ystod pythefnos Stroliwch a roliwch, pob oedran yn cymryd rhan. Sgwn i pa ddosbarth ddaeth i'r brig?

# Tasg y Tincer

Roedd y ci yn mwynhau dewis llyfr o'r silff y mis diwethaf. Tybed pa un wnaeth e ddewis? Daeth pob un llun gan blant Ysgol Penrhyn-coch y tro hwn – GWYCH! Diolch yn fawr i: Elsi Wynn, Milly, Asher, Vinnie, Canice, Harry, Ailsha, Iona, Correy, Elen Fflur, Henry, Luna, Anest, Moli, Mabli, Ellis, Evie, Florence, Lacey, Lilah-Rose, Koeden, Leo, Elena, Macs, Ned, Ffion ac Archie.

Dy enw di, **Henry Richards**, ddaeth o het y Tincer y tro hwn. Llongyfarchiadau!



Henry

Mae gwyliau'r Pasg bron â chyrraedd. Hwrê! Fy hoff beth i yw derbyn wy siocled mawr. Mmmm! Mae'r wy yn arwydd o fywyd newydd. Bydd rhai ohonon ni'n cael cwningen siocled, ond pam cwningen? Un o ffrindiau gorau Eostre – duwies y gwanwyn – amser maith, maith yn ôl, oedd sgwarnog, ac mae'n bosib mai dyna pam. Beth ydych chi'n gobeithio cael – cwningen siocled neu wy siocled – neu'r ddau?! Cofiwch ddweud 'Pasg Hapus' i'ch ffrindiau. Beth am roi cynnig ar ei ddweud mewn sawl iaith?:

*Pask Seder* (Llydaweg), *Beannachtaí na Cásca ort* (Gwyddeleg), *Pask Lowen* (Cernyweg), *Feliz Pascua* (Sbaeneg), *Joyeuses Pâques* (Ffrangeg) a *Frohe Ostern* (Almaeneg).



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn, rhowch ddigon o liwiau llawen yn y llun o'r wyau Pasg. Ydych chi'n medru gweld y cyw a'r gwningen yn cuddio yn y llun? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 7 Mai. Pasg Hapus, a hwyl am y tro!

ISSN 0963-925X

*Rhif 478 | Ebrill 2025*